# Chwarae Cymru

ADRODDIAD EFFAITH
2016 - 2017



# Adroddiad y Cadeirydd

Rwy'n ysgrifennu'r adroddiad yma ar ganol cynhadledd Ysbryd 2017. Nid am fy mod am ddianc, ond oherwydd bod fy mhen yn llawn '*sound-bites*' sydd angen imi eu taro ar bapur. Felly, dyma ichi hanner dwsin, a bydd y bobl a'u dywedodd yn gwybod i bwy y maent yn perthyn. Mae'n gyfle hefyd i fyfyrio ar y flwyddyn ddiwethaf.

1. **Fydd lles ddim jesd yn digwydd – mae rhaid ei feithrin a'i warchod**
   Mae'n cynnwys llawer o elfennau – deallusrwydd emosiynol, gwytnwch, cydgysylltiad, a pharch at eraill. Caiff y rhain i gyd eu datblygu trwy chwarae'n rhydd a'u bygwth gan ei ddiffyg.

2. **Rydym angen gwell tystiolaeth a faint yn union yw'r cyfraniad hwnnw**
   Ond nid yw ystadegau, o reidrwydd, yn newid pethau ble fo agweddau wedi ymwreiddio a ble fo arian i'w gael o gadw pethau fel y maent. Mae gan wahanol ofalwyr wahanol ganfyddiadau. Maent angen cymorth unigol, nid fel un categori ar gyfer gwaith ymchwil.

3. **Beth oedden ni'n arfer ei fwynhau ac rydym bellach wedi ei golli?**
   Pan oeddwn i'n blentyn, byddai mam yn fy ngyrru allan gyda chwpwl o frechdanau a fyddai hi ddim yn disgwyl fy ngweld i wedyn tan amser te. Roeddwn i'n rhydd i archwilio, mynd ar goll a dod o hyd i fy hun eto, yn gorfforol ac yn ysbrydol. Roedd gen i hawl i grwydro. Mae plentyn heddiw'n lwcus i fynd i ben y stryd.

4. **Mae hiraethu'n hawdd – mae'r byd wedi newid**
   Mae plant, yn ein tyb ni, yn fregus. Maen nhw'n ysglyfaeth i bob math o berygl - traffig, pobl ddieithr a gofynion byd cystadleuol. Mae 'risg' yn air budr ac mae diwydiant cyfan wedi tyfu allan o'r diwylliant bai, ymgyfreithio a budd ariannol.

5. **'Dyw diogelwch ddim yn fantais bob amser – mae'n dibynnu pa ddiogelwch yr ydym yn ei olygu**
   Mae'r graff ar gyfer y gyfradd marwolaeth mewn plentyndod wedi bod yn disgyn ers degawdau, ond mae'r graff ar gyfer damweiniau ffyrdd a hunan-niweidio wedi bod yn codi'n gyflym. 'Dyw chwarae ddim yn lladd plant, ond efallai bod diffyg chwarae yn eu lladd - trwy fynd â nhw i bobman yn set gefn y car, a thrwy eu condemnio i unigrwydd sgrin y ffôn symudol a'r cyfrifiadur yn eu hystafell wely.

6. **Mae deilliannau yn bethau fydd yn digwydd yn y dyfodol – o bethau a ddigwyddodd yn y gorffennol**
   Ar y newyddion y bore yma cafwyd adroddiad arall am y modd y gall afiechyd meddwl ddistrywio bywydau oedolion. Mae hadau'r afiechyd hwnnw wedi eu gwreiddio mewn plentyndod, a bydd chwarae'n helpu i'n gwarchod rhag ei ddatblygiad. Mae'n rhoi llwybr amgen inni, yn hytrach na thrais ac anobaith.

Felly, dyna ni. Rhestr o wirebau, efallai, ond dyma'r pwynt. Y newyddion da yw'r ffaith bod y mwyafrif o rieni'n gwybod eu bod yn gywir. Y newydd drwg yw mai prin yw'r rhai all eu rhoi ar waith. Maen nhw angen cymorth - trwy ffurfio rhwydweithiau o bobl sy'n meddwl yr un fath, trwy newid yr amgylchedd adeiledig, a thrwy herio agweddau'r rheini sy'n sefyll yn ein ffordd.

A dyna'n union y mae Chwarae Cymru'n ceisio ei wneud, fel y darllenwch eto am gylch gorchwyl a doniau'r tîm a'r effaith y maent yn ei gael. Mae chwarae'n hwyl, ond mae gwneud yn siŵr ei fod yn digwydd yn fater difrifol. Ac fel y dywedodd un siaradwr y bore yma, '*Mae criw Chwarae Cymru yn unigryw*'. Digon gwir!



Dr Mike Shooter CBE
Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru

**www.chwaraecymru.org.uk**



# Cynnwys


2016 - 2017 yn gryno 4

Am Chwarae Cymru 5

Adolygiad ariannol – crynodeb 6

Cyflawniadau
- Cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol 7
- Ymgysylltu 8
- Cyhoeddiadau 9
- Gweithwyr proffesiynol hyddysg 10
- Ymholiadau gan y cyhoedd 12
- Cydweithredu'n lleol 12
- Aelodaeth 14
- Partneriaeth 16

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol: 2017 - 2018 17

Cyflawniadau: 1998 - 2016 18

Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru 20

Tîm Chwarae Cymru 20

# 2016 - 2017 yn gryno

**30,000** ymweliad i'r wefan

**1000** o ymholiadau gan y cyhoedd

**86** aelod Chwarae Cymru

*'Mae Chwarae Cymru yn gorff anllywodraethol (NGO) llawn ffocws sy'n canolbwyntio ar bolisi.'*

**'L2APP'** datblygwyd a throsglwyddwyd y cymhwyster Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae

**Diwrnod Chwarae y DU**

**Chwaraeodd 75,000 o blant y tu allan**

Cofrestrwyd 157 o ddigwyddiadau

Adolygwyd **22** o Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae awdurdodau lleol

**2673** o bobl sydd â diddordeb mewn chwarae plant wedi derbyn newyddion a gwybodaeth yn rheolaidd

# Am Chwarae Cymru

## Chwarae Cymru yw'r elusen genedlaethol dros chwarae plant.

Rydym yn gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch angen a hawl plant a phobl ifanc i chwarae ac i hybu arfer dda ar bob lefel o lunio penderfyniadau ac ym mhobman ble y gallai plant chwarae. Rydym yn darparu cyngor ac arweiniad i gefnogi pob un sydd â diddordeb mewn, neu sy'n gyfrifol am ddarparu ar gyfer, chwarae plant fel y bydd Cymru, un dydd, yn wlad ble rydym yn cydnabod ac yn darparu'n dda ar gyfer anghenion chwarae pob plentyn.

Ers mis Hydref 2014 (hyd fis Mawrth 2018), mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Chwarae Cymru trwy Grant Polisi Strategol Chwarae Cymru i ddarparu ystod o gefnogaeth strategol i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.

Nod cyffredinol y cynllun hwn yw cyflawni potensial cyfleoedd chwarae i gyfrannu tuag at les tymor hir plant a phobl ifanc yng Nghymru. Bydd y cynllun yn cyfrannu at weithrediad llwyddiannus Adrannau 10 ac 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Rydym yn gweithio i sicrhau bod chwarae plant yn cael ei integreiddio'n effeithlon ag amcanion polisi eraill, yn cynnwys trechu tlodi a'r nodau a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae ein cynllun gweithredol yn ymateb i dystiolaeth gynyddol ynghylch pwysigrwydd chwarae o ran ymdeimlad plant o'u hunain, eu gallu a'r amgylchedd o'u cwmpas.




# Adolygiad ariannol - crynodeb

**Adroddiadau incwm a gwariant Chwarae Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol yn gorffen Mawrth 2017.**

## Cyfanswm incwm £422,493

| | |
|---|---|
| Grantiau | £370,000 |
| Incwm arall | £28,069 |
| Hyfforddi'r gweithlu | £9,232 |
| Cynhadledd Ysbryd 2016 | £7,240 |
| Aelodaeth | £4,198 |
| Nwyddau | £3,195 |
| Incwm o fuddsoddiadau | £527 |
| Rhoddion | £32 |



## Cyfanswm gwariant £397,980

| | |
|---|---|
| Polisi chwarae, cymorth ac eiriolaeth | £132,637 |
| Datblygu'r gweithlu | £128,643 |
| Gwasanaeth Gwybodaeth | £101,050 |
| Rheolaeth | £35,650 |



# Crynodeb o gyflawniadau 2016 - 2017

## Cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol

**Rydym yn cydweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a'u partneriaid i gefnogi gweithrediad y Dyletswydd Digonolrwydd Chwarae, a osodwyd ar awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru.**

**Mae Chwarae Cymru wedi:**

- Adolygu ac adrodd ar 22 o Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae awdurdodau lleol
- Hwyluso, gyda Llywodraeth Cymru, dri gweithdy rhanbarthol ar gyfer swyddogion arweiniol digonolrwydd awdurdodau lleol a'u partneriaid
- Trosglwyddo gweithdy digonolrwydd chwarae traws-bolisi ar gyfer swyddogion o Lywodraeth Cymru
- Cyfrannu at gerdyn adroddiad Plant Egnïol Iach (PEI) Cymru - roeddem yn aelod o'r grŵp arbenigol oedd yn cynnwys casglu data, cydweithio i bennu graddau i ddangosyddion a chyflwyno canfyddiadau yn y lansiad
- Cydlynu pedwar cyfarfod o Gyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC Cymru) er mwyn darparu cyswllt strategol pwysig rhwng SkillsActive, Llywodraeth Cymru a chyflogwyr gwaith chwarae
- Ehangu ar drefniadau gweithio llwyddiannus gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)
    - Datblygu ac ymgynghori ar amrywiol arfau i gefnogi proses archwilio Fframwaith Dyfarnu Ansawdd (QJF) AGGCC
    - Trosglwyddo tri seminar rhanbarthol ar gyfer arolygwyr a darparwyr chwarae mynediad agored iddynt ystyried materion sy'n ymwneud ag arolygon a rheoliadau
    - Cynhyrchu a darparu cymorth i ddarparwyr chwarae mynediad agored ymgymryd â, a chwblhau rhan un Hunanasesiad y Datganiad Gwasanaeth (SASS).

*'Mae'r gefnogaeth y byddwn yn ei dderbyn yn gyson oddi wrth Chwarae Cymru'n hanfodol ar gyfer cynnal ffocws a dialog o ran pwysigrwydd chwarae plant, yn enwedig y dyddiau hyn. Rydyn ni mor ffodus yn ein hawdurdod lleol nad oes unrhyw awydd i'n plant a'n pobl ifanc ddioddef o ganlyniad i fesurau cyni. Mae llywio ein ffordd yn llwyddiannus trwy'r dyddiau tywyll hyn yn cael ei gynorthwyo, heb os, gan yr eiriolaeth a'r gefnogaeth leol, ranbarthol a chenedlaethol a dderbynnir oddi wrth Chwarae Cymru.'*

**Swyddog Datblygu Chwarae**

*Mae Chwarae Cymru'n un o'r ychydig sefydliadau sydd ar flaen y gad o ran eu dealltwriaeth o destun chwarae ac maent yn gweithio gydag agenda'r llywodraeth a helpu, yn fy marn i, i'w ffurfio. Yn syml iawn, mae'r plant, a'r bobl hynny sy'n gweithio gyda nhw, yn well eu byd oherwydd bodolaeth mudiad fel Chwarae Cymru, allwn ni ddim tanbrisio eu dylanwad.'*

**Gweithiwr Chwarae ac Ymgynghorydd Chwarae**



**30,000 YMWELIAD**

**18,000 DEFNYDDIWR**

# Ymgysylltu

## Gwefan

Mae ein gwefan wrth galon Gwasanaeth Gwybodaeth Chwarae Cymru. Caiff ei diweddaru'n rheolaidd gyda gwybodaeth berthnasol, amserol gan ddenu, rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017:

- 30,000 ymweliad
- 18,000 defnyddiwr
- 75,000 ymweliad a thudalennau

*'Mae ansawdd a chynnwys y cyhoeddiadau yr ydych yn eu cynhyrchu a'u dosbarthu i'ch aelodau ac i grwpiau rhanddeiliaid eraill, yn rhagorol. Fel chwaer-sefydliad, byddwn yn defnyddio eich deunyddiau'n aml i'n helpu i ddadlau achos chwarae yn ein gwlad ddatganoledig ninnau. Daliwch ati gyda'r gwaith gwych yr ydym wedi dod i ddibynnu arno ac y byddwn bob amser yn edrych ymlaen i'w ddarllen.'*

**Prif Swyddog Gweithredol,**
**PlayBoard Northern Ireland**

### Arolwg Gwerthuso Chwarae Cymru

Sut mae cefnogaeth Chwarae Cymru wedi cyfrannu at eich gallu chi / gallu eich sefydliad i sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer chwarae plant?

**TRI ATEB UCHAF**

| | |
|---|---|
| Derbyn y newyddion diweddaraf a gwybodaeth am ddatblygiadau ymchwil | **91%** |
| Cyrchu deunyddiau ac adnoddau trwy gyhoeddiadau Chwarae Cymru | **60%** |
| Gwell ymarfer gwaith chwarae yn ein lleoliad | **40%** |

## Y cyfryngau cymdeithasol

Mae'r niferoedd sy'n dilyn cyfryngau cymdeithasol dwyieithog Chwarae Cymru'n tyfu'n ddyddiol ac maent yn denu mwy o gyfranogaeth o blith cynulleidfa amrywiol, eang yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.

**Facebook**
1,460 yn hoffi
Cynnydd o 34%

**Twitter**
3,954 o ddilynwyr
Cynnydd o 6%

## Y diweddaraf drwy e-bost

Rydym yn sicrhau bod ein cefnogwyr, oddeutu 2,673 o dderbynwyr sydd â diddordeb uniongyrchol mewn chwarae plant, yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar ffurf e-byst sy'n cynnwys newyddion a gwybodaeth gyfredol, yn cynnwys:

- Digwyddiadau sydd ar y gweill
- Y newyddion diweddaraf
- Cyhoeddiadau newydd Chwarae Cymru
- Ymgynghoriadau
- Gwybodaeth polisi.

# Cyhoeddiadau




**Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom ddatblygu a dosbarthu amrywiaeth o gyhoeddiadau i gynorthwyo i hysbysu'r rhai sydd â diddordeb mewn neu gyfrifoldeb am chwarae plant.**

## Cylchgrawn *Chwarae dros Gymru*


**Fe'i cyhoeddir ddwywaith y flwyddyn a'i ddosbarthu ar ffurf papur ac yn electronig i oddeutu 4,109 o ddarllenwyr.**

Hydref 2016
Mae'r rhifyn **Cymunedau chwareus** yn cynnwys:




- Gwneud amser i chwarae yn y gymuned
- Syniadau eiriolaeth i oresgyn rhwystrau rhag chwarae
- Chwarae, ymdrechu, ffynnu – mynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod drwy chwarae
- Gwireddu'r hawl i chwarae ar lefel ryngwladol.

Gwanwyn 2017
Mae'r rhifyn **Chwarae a thechnoleg ddigidol** yn cynnwys:




- Chwarae a'r plwg: agwedd gwaith chwarae tuag at amser sgrin mewn chwarae plant
- CCUHP – diweddariad ar gyfer yr oes ddigidol – Yr Athro Sonia Livingstone
- Amser sgrin: pwy sydd wir ar fai? – Mark Sears, The Wild Network
- Chwalu chwedlau chwarae digidol.

## Taflenni gwybodaeth

***Cyfranogaeth ac ymgynghori gyda phlant*** – mae'n archwilio cyfranogaeth ac ymgynghori gyda phlant yng nghyd-destun gwaith chwarae. Mae hefyd yn anelu i ystyried pam a sut fyddwn ni'n ymgynghori â phlant mewn ffordd ystyrlon heb gwtogi ar eu hamser a'u rhyddid i chwarae'n ddiangen.

***Hybu gweithgarwch corfforol trwy chwarae'r tu allan mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar*** – mae'n archwilio sut fydd chwarae'n cyfrannu at les corfforol plant a sut y gall ymarferwyr y blynyddoedd cynnar ddarparu caniatâd, amser a lle, yn ogystal â sicrhau bod deunyddiau ar gael, ar gyfer chwarae. Mae hefyd yn cynnig cyngor ymarferol ar gyfer bod yn synhwyrol ynghylch iechyd a diogelwch.

## Awgrymiadau anhygoel

***Gwneud amser i chwarae*** – rydym yn eiriol dros fabwysiadu agwedd rad tuag at wneud y gorau o amser rhydd plant.

***Awgrymiadau anhygoel ar gyfer Diwrnod Ystafell Ddosbarth Tu Allan*** – mae ysgolion sy'n cymryd rhan yn ymrwymo i dreulio oleiaf un wers y tu allan yn ystod y dydd. Mae'n cynghorion yn eiriol am ddiwrnod chwareus mewn ysgolion.

## Ffocws ar chwarae

***Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf*** – sut y gall gwasanaethau chwarae a gwaith chwarae ymdrin â bylchau mewn darpariaeth gwasanaethau ar gyfer rhieni a phobl ifanc yn ogystal â chyfrannu tuag at atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) a lleddfu'r effaith ar blant a phobl ifanc sy'n byw mewn amgylchiadau anodd.

# Gweithwyr proffesiynol hyddysg




Mae Llywodraeth Cymru'n diffinio'r gweithlu chwarae fel 'unrhyw un cyflogedig y mae ei rôl yn effeithio ar blant yn chwarae – y bobl hynny allai un ai hwyluso eu chwarae'n uniongyrchol, dylunio ar gyfer chwarae, neu'r rheini sydd a'r pŵer i roi caniatâd i blant chwarae, neu beidio' (*Cymru, gwlad lle mae cyfle i chwarae*, 2014).

Mae'r gweithlu chwarae'n cynnwys gweithwyr chwarae ond mae hefyd yn cynnwys ystod eang iawn o weithwyr proffesiynol eraill o ysgolion, adrannau cynllunio, priffyrdd a thrafnidiaeth, iechyd a diogelwch a gofal plant, yn ogystal â grwpiau gwirfoddol a chymunedol, cynghorau tref a chymuned ac aelodau etholedig.

**Mae Chwarae Cymru wedi ymgymryd ag amrywiaeth eang o weithgarwch er mwyn sicrhau bod y gweithlu chwarae'n cael cyfle i gryfhau eu dealltwriaeth o'u rôl wrth sicrhau bod plant yn cael mwy a mwy o gyfleoedd i chwarae.**

## Dyfarniad Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Chwarae

Fe dderbyniom ariannu oddi wrth Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r Dyfarniad Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Chwarae. Yn ystod haf 2016, fe wnaethom weithio gyda grŵp llywio yn cynnwys Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, SkillsActive, Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales ac Agored Cymru (corff dyfarnu) i ddatblygu unedau'r cymhwyster. Mae'r dyfarniad yn ateb gofynion cofrestru ar gyfer: pobl sy'n gweithio mewn cynlluniau chwarae dros y gwyliau mewn rolau an-oruchwyliol a phobl sy'n gweithio gyda phlant wyth i ddeuddeg oed mewn lleoliadau gofal plant blwyddyn gron, o'i feddu ochr-yn-ochr â chymhwyster gofal plant lefel 2.

Mae hefyd yn cael ei ystyried yn ddatblygiad proffesiynol achrededig gwerthfawr ar gyfer pobl sy'n gweithio mewn amrywiol rolau perthynol, yn cynnwys: cynorthwywyr addysgu, goruchwylwyr awr ginio, gweithwyr ieuenctid a staff datblygu chwarae.

Trosglwyddwyd cwrs cyntaf L2APP i garfan o ddysgwyr yng Nghaerdydd, a hynny dros dridiau ym mis Chwefror 2017 gan Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales. Mynychodd dysgwyr o bob cwr o'r gynulleidfa darged, yn cynnwys: cynlluniau chwarae dros y gwyliau, clybiau ar ôl ysgol, clybiau ieuenctid, datblygu chwaraeon ac ysgolion.

Wedi cwblhau'r rhan a addysgir o'r cwrs, bydd dysgwyr yn cwblhau tasgau asesu ymarferol ac 20 awr o ymarfer gwaith chwarae i dystio i'w gallu i roi eu gwybodaeth ar waith. Yn y sesiwn olaf, roedd y dysgwyr yn siarad eisoes am sut yr oedd y cwrs wedi newid y modd y maent yn meddwl am chwarae a sut y byddant yn gweithio gyda phlant yn y dyfodol.

Mae Chwarae Cymru'n gweithio'n agos gydag Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales i drosglwyddo L2APP ar draws Cymru i bawb sydd ei angen.

*'Uchafbwyntiau'r cwrs: gwrando ar brofiadau pobl eraill a myfyrio ar fy arfer gwaith chwarae fy hun … mae'r cwrs yn wych, yn ddealladwy ac yn hawdd iawn i gael mynediad iddo.'*

*'Mae'r cwrs yma wedi fy nysgu am y wybodaeth sy'n sail i waith chwarae a'r rheswm pam fod plant yn chwarae … ac mae wedi fy nysgu hefyd am ymyrraeth a sut y mae oedolion yn dueddol o ymyrryd gormod. Trwy'r cwrs hwn rwyf wedi datblygu fy ngwybodaeth a chymryd cam yn ôl er mwyn caniatáu i'r plant chwarae'n fwy rhydd.'*

## Lefel 1 mewn Gwaith Chwarae – Agored Cymru

Rydym wedi gweithio gydag Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales i ddatblygu deunyddiau cwrs a dulliau asesu ar gyfer cwrs Lefel 1 mewn Gwaith Chwarae, Agored Cymru. Mynychodd dwsin o ddysgwyr gwrs ym mis Rhagfyr 2016 ym Merthyr Tudful. Bwriedir i'r cwrs ddarparu dysgwyr gyda chyflwyniad syml i waith chwarae ac mae'n paratoi'r ffordd i ddysgwyr symud ymlaen i ddysg gwaith chwarae pellach.

*'Fe wnes i fwynhau'r cwrs yn fawr iawn ac rydw i'n edrych ymlaen yn arw at gymryd rhan yn Lefel 2 pryd, ac os, y daw cyfle.'*

## Digwyddiadau

Trwy gydol y flwyddyn fe wnaethom gefnogi datblygiad, trefnu a chynnal nifer o gynadleddau, seminarau a chyfleoedd DPP ar gyfer y sector chwarae a gwaith chwarae ehangach, gan gynnwys:

- **Ysbryd 2016: Cymunedau chwareus** (Caerdydd) – cafodd 108 o gyfranogwyr eu haddysgu gan areithiau allweddol, rhyngwladol, ysbrydoledig gan siaradwyr yn cynnwys Dr Jan Van Gils a Dr Stuart Lester a chymryd rhan mewn 10 gweithdy ar bynciau'n cynnwys: chwarae yn yr amgylchedd naturiol, digonolrwydd chwarae trwy leisiau'r plant, a chwarae stryd: chwalu chwedlau, heriau a phosibiliadau.

  *'Gwych, safon unigryw – digwyddiad allweddol ar gyfer chwarae a phobl sy'n ymwneud â chwarae.'*

- **Fforwm Gweithwyr Chwarae 2016** (Aberhonddu) – mynychodd 35 o gyfranogwyr y digwyddiad deuddydd yma sy'n rhoi cyfle i staff o feysydd chwarae antur a phrosiectau chwarae rannu arfer dda a dysgu a datblygu sgiliau ymarferol i gefnogi plant sy'n chwarae. Eleni, roedd y fforwm yn agored i gyfranogwyr o'r tu allan i Gymru a chroesawyd gweithwyr chwarae o Fryste, Watford a Swydd Henffordd.

  *'Cyfle gwych ac unigryw i weithwyr chwarae ddod at ei gilydd, rhannu syniadau a dathlu gwaith chwarae. Mae'r fforwm wir yn cynrychioli gwaith chwarae ac mae ei natur "anffurfiol" yn hybu ymdeimlad o gymuned a chyfle i adfywio.'*

- **Bywyd Cartref 2017** (Conwy) – Ym mis Mawrth 2017, fe wnaethom gydweithio gyda Rhwydwaith Swyddogion Chwarae Gogledd Cymru i gynnal ail gynhadledd Bywyd Cartref. Nod y digwyddiad oedd gwella'r amodau ar gyfer chwarae yn ac o amgylch y cartref, a denodd 57 o gyfranogwyr sy'n gweithio gyda theuluoedd mewn cyd-destun cymorth i deuluoedd, datblygu cymunedol, y blynyddoedd cynnar a gwaith cymdeithasol.

  *'Cynhadledd wych y gwnes ei mwynhau'n fawr iawn! Cyflwyniad, tempo a chyfuniad rhagorol o weithgareddau.'*

- **Seminar Digonolrwydd Chwarae** – mewn partneriaeth â thîm Datblygu Chwarae a Gwasanaethau Hamdden Sir y Fflint, fe drefnom y seminar yma i archwilio sut y gall pob un, y mae eu gwaith yn effeithio ar chwarae plant, weithio gyda'i gilydd i wneud Sir y Fflint yn sir fwy chwarae-gyfeillgar. Adeiladodd y sesiwn ar yr hyn oedd wedi ei gyflawni hyd yma ac i feddwl ymlaen i sut y gellid cynnal y momentwm er mwyn parhau i wneud Sir y Fflint yn fan iach ar gyfer chwarae.

  *'Diolch ichi am gyfle rhwydweithio gwych. Mae wedi fy helpu i sylweddoli bod ein nodau a'n amcanion yn debyg i rai mudiadau eraill ac adrannau eraill o'r cyngor ac y byddem yn cyflawni mwy trwy rwydweithio a gweithio gyda'n gilydd.'*





## Ymholiadau gan y cyhoedd

Yn ogystal â'r gronfa eang o wybodaeth a ddarperir trwy ein gwefan, rydym yn amcangyfrif inni dderbyn ac ymateb i tua 1000 o ymholiadau dros y ffôn a thrwy e-bost oddi wrth rieni, aelodau etholedig, dysgwyr, ysgolion a mudiadau bychain yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r ymholiadau y gwnaethom ymateb iddynt trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chyfeirio'n cynnwys:

- Cymwysterau addas ar gyfer lleoedd chwarae a gofal plant sydd wedi eu cofrestru â AGGCC
- Cyngor ariannu ar gyfer prynu offer chwarae a datblygu ardaloedd chwarae mewn cymunedau
- Cymwysterau perthnasol sy'n ofynnol ar gyfer rhedeg cynllun chwarae
- Dysgwyr sydd am ymgymryd â hyfforddiant gwaith chwarae, a chymwysterau lefel 3 yn benodol
- Ymholiadau ymchwil oddi wrth fyfyrwyr astudiaethau plentyndod a gwaith chwarae
- Cyngor ariannu ar gyfer darpariaeth gwaith chwarae
- Cefnogaeth ar gyfer achub caeau chwarae ysgolion
- Cyngor ar lain o dir neu ofod chwarae (fel arfer oddi wrth gymdeithasau tai)
- Hysbysebu swyddi, yn arbennig cynlluniau chwarae haf
- Llythyrau o gefnogaeth i gymunedau sy'n ymgyrchu am ardaloedd chwarae ac ar gyfer ceisiadau ariannu.

**Adolygir yr ymholiadau hyn yn rheolaidd a'u defnyddio i hysbysu ychwanegu gwybodaeth**

## Cydweithredu'n lleol

### Achubwyr Lle Gwag

Mae Achubwyr Lle Gwag yn brosiect a ariennir gan y Loteri FAWR i gefnogi tenantiaid pedair o gymdeithasau tai de Cymru i drawsnewid mannau agored yn eu cymunedau. Trwy'r prosiect, mae Chwarae Cymru wedi cefnogi grŵp o denantiaid yn Oakwood, Maesteg i ymgynghori ar gynlluniau i ddatblygu ardal newydd i chwarae ar olwynion.

*'Bydd y cyfleoedd i chwarae y byddwn yn eu darparu ar gyfer plant yn effeithio'n sylweddol ar y genhedlaeth nesaf – a'r ddealltwriaeth yma y mae Chwarae Cymru wedi ei roi i ni fel cymdeithas dai. Maent wedi ymgysylltu'n llwyddiannus gydag aelodau'r gymuned a rhoi'r wybodaeth a'r hyder iddynt fynnu bod chwarae ar yr agenda.'*

**Tai Cymoedd i'r Arfordir**

### Diwrnod Chwarae

Mae Diwrnod Chwarae'n ddathliad blynyddol yn y DU. Fe'i cydlynir gan Chwarae Cymru, Play England, Play Scotland a PlayBoard Northern Ireland. Mae Chwarae Cymru'n cynrychioli Cymru ar Grŵp Llywio Diwrnod Chwarae sy'n cydlynu'r ymgyrch flynyddol. Yn Chwarae Cymru rydym yn ystyried Diwrnod Chwarae fel cyfle i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd chwarae plant a'r angen am ddarpariaeth chwarae o safon bob dydd o'r flwyddyn ym mhob ardal o Gymru.

**Rhaglen Datblygiad Proffesiynol Merthyr**

Buom yn llwyddiannus gyda'n cais i raglen Arian i Bawb Cymru, y Gronfa Loteri FAWR, i drosglwyddo Rhaglen Datblygiad Proffesiynol ym Merthyr Tudful gyda Stuart Lester a Wendy Russell o Brifysgol Swydd Gaerloyw. Daeth y Rhaglen Datblygiad Proffesiynol ag amrywiol randdeiliaid o awdurdodau lleol a'r drydedd sector ynghyd i ystyried sut y mae eu meysydd gwaith yn ymateb i flaenoriaethau o fewn y cynllun gweithredu digonolrwydd chwarae ac yn cyfrannu at ddyletswydd statudol yr awdurdod lleol i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol.

*'Mae'r archwiliad o chwarae o ran rhyngweithiad dyddiol plant gyda'r byd o'u hamgylch wedi galluogi unigolion i ail-archwilio eu dealltwriaeth o chwarae. Trwy'r agwedd yma, mae'r rhaglen wedi creu cysylltiad cryfach rhwng sut y gall adrannau'r awdurdod lleol a sefydliadau partner effeithio ar greu amgylcheddau er mwyn i chwarae gael ei gydnabod, ei hybu, ei gefnogi a'i annog gan y gymuned.'*

**Rheolwr Blynyddoedd Cynnar ac Ieuenctid, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil**

**Llecyn Concrid – *Field of Plinths***

Cydweithiodd Chwarae Cymru gyda myfyrwyr o Brifysgol Metropolitan Caerdydd i adfywio gofod awyr agored concrid trist nad oedd yn cael ei ddefnyddio ar gampws y brifysgol a'i drawsnewid yn ofod awyr agored lliwgar ar gyfer chwarae, dysgu ac addysgu. Galwodd y prosiect am gynllun creadigol ar gyfer storio rhannau rhydd i gefnogi chwarae plant.

Fe ddyluniodd y tîm o fyfyrwyr o Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd elfennau storio oedd yn addas i gadw rhannau rhydd. Mae'r gofod o fudd sylweddol i fyfyrwyr y cyrsiau Astudiaethau Plentyndod Cynnar ac Astudiaethau Addysg Gynradd gan ei fod yn cynnig gofod ychwanegol ar gyfer cynnal gweithdai gyda myfyrwyr, athrawon, disgyblion ysgol a'r gymuned leol.

*'Mae gweithio mewn partneriaeth broffesiynol gyda Chwarae Cymru'n parhau i gyfoethogi a bywiogi ein darpariaeth ar gyfer y myfyrwyr BA (Anrh) Astudiaethau Plentyndod Cynnar ac Astudiaethau Addysg Gynradd. Mae Chwarae Cymru'n darparu cefnogaeth gyfredol, allweddol a beirniadol i'n myfyrwyr a'n staff trwy gefnogi ein mentrau cymunedol a thrwy drosglwyddo darlithoedd byw i'n carfannau o fyfyrwyr, gan effeithio'n gadarnhaol ar eu harfer yn awr ac i'r dyfodol.'*

**Uwch-ddarlithydd mewn Addysg ac Astudiaethau Plentyndod Cynnar, Prifysgol Metropolitan Caerdydd**

**Deunyddiau asesu risg-budd**

Rydym wedi gweithio gyda thîm Datblygu Chwarae Wrecsam, darparwyr gwaith chwarae a Playful Futures i gyhoeddi deunyddiau rheoli risg dynamig sy'n canolbwyntio ar strwythurau hunanadeiladu ac ymddygiadau chwarae cyffredin.

**Pecyn Cymorth – *Access to Play for Children in Situations of Crisis***

Comisiynodd yr International Play Association (IPA) Chwarae Cymru i ddatblygu *Access to Play for Children in Situations of Crisis* – pecyn cymorth ar gyfer staff, rheolwyr a llunwyr polisïau er mwyn cefnogi chwarae mewn sefyllfaoedd o argyfwng.

Mae'r pecyn cymorth wedi ei anelu at bobl a sefydliadau sy'n gweithio mewn sefyllfaoedd o argyfwng, yn cynnwys sefyllfaoedd ble mae rhyfela, neu drychinebau dyngarol, naturiol ac o waith dyn, fel eu bod mewn gwell sefyllfa i ddeall a chefnogi cyfleoedd chwarae plant a leolir yn y gymuned.

*'Mewn argyfwng, bydd cyfleoedd i chwarae o gymorth mawr i blant adennill ymdeimlad o normalrwydd a llawenydd wedi iddynt brofi colled, afleoliad a thrawma. Pleser o'r mwyaf yw cael cydweithio gyda Chwarae Cymru unwaith eto i greu adnodd i gefnogi pobl yn yr ennyd honno pan fyddant yn sylweddoli mai chwarae yw'r union beth sydd angen i'r plant ei wneud.'*

**Llywydd, International Play Association**



# Aelodaeth

Mae Chwarae Cymru yn fudiad i aelodau.

Gofynnir i bob aelod sy'n ymuno, i ymrwymo i'r Egwyddorion Gwaith Chwarae a Pholisi Chwarae Llywodraeth Cymru.

Yn 2016-2017 roedd gennym 86 o aelodau, yn cynnwys:

- Awdurdodau lleol
- Cynghorau tref a chymuned
- Prifysgolion a cholegau
- Cymdeithasau chwarae lleol a rhanbarthol
- Clybiau ar ôl ysgol, clybiau brecwast, cynlluniau chwarae gwyliau'r ysgol a meithrinfeydd
- Cwmnïau masnachol
- Mudiadau cenedlaethol yng Nghymru ac yn rhyngwladol
- Unigolion fel gweithwyr chwarae, hyfforddwyr gwaith chwarae, athrawon a darlithwyr.

Mae **aelodaeth gyswllt** yn agored i bob mudiad ac unigolyn sy'n byw yng Nghymru.

Mae **aelodaeth gyswllt ryngwladol** yn agored i unrhyw fudiad neu unigolyn sy'n byw neu'n gweithio'r tu allan i Gymru hoffai gefnogi gwaith Chwarae Cymru. Ceir cyfyngiadau ar y buddiannau aelodaeth oherwydd ein bod fel elusen wedi ein cofrestru i weithio er budd trigolion Cymru.

Yn 2016-2017 fe wnaeth ein haelodau elwa trwy dderbyn:

- Hysbysiadau ynghylch ymgynghoriadau allweddol a thrwy gyfrannu eu mewnbwn hwy i'n hymatebion
- Gwybodaeth reolaidd am ddatblygiadau ac ymchwil newydd
- Pris gostyngedig i gyfranogwyr yn ein digwyddiadau
- Prisiau gostyngedig ar ein cyhoeddiadau.

*'Mae bod yn aelod o sefydliad cenedlaethol sy'n cynrychioli chwarae plant yn gaffaeliad gwerthfawr … Mae diweddariadau a gwybodaeth barhaus am ddeddfwriaethau'n werthfawr dros ben. Mae cylchlythyrau, bwletinau, cyhoeddiadau a gwaith ymchwil hefyd yn fantais fawr i ni fel tîm bychan, ac rydym yn gwybod y gallwn alw ar y staff i'n cynorthwyo gydag unrhyw beth sy'n ymwneud â chwarae.*

*Heb Chwarae Cymru fydden ni ddim wedi cael y fath lwyddiant yng Nghymru fel gwlad. Rydym yn gwybod eu bod yn allweddol wrth gynorthwyo Llywodraeth Cymru i fod y wlad gyntaf i fabwysiadu strategaeth a pholisi chwarae. Diolch o galon, rydych yn gwneud gwaith neilltuol yn lobïo ac ymgyrchu dros hawl plant i chwarae.'*

**Swyddog Cymorth Datblygu / Swyddog Datblygu Chwarae**

*'Y prif beth yr ydw i'n ei gael o fod yn aelod o Chwarae Cymru yw cefnogaeth, mae rhywun ben arall y ffôn bob amser os ydw i angen cyngor. Mae eu deunyddiau, taflenni briffio a chylchgronau wedi bod yn hynod o ddefnyddiol wrth eiriol dros chwarae gyda gweithwyr proffesiynol eraill a rhieni.'*

**Hyfforddwr Gwaith Chwarae**

*'Chwarae Cymru yw'r arweinydd chwarae ac mae wastad ar y blaen o ran eiriol dros chwarae. Rydym yn ddiolchgar bod Chwarae Cymru mor agored wrth rannu gwybodaeth am chwarae ac arfer gorau, ar lefelau polisi a darparu chwarae. Rydym yn teimlo bod Chwarae Cymru'n ffynhonnell adnoddau y byddwn wastad yn ymweld â hi am y wybodaeth ddiweddaraf a syniadau i ysbrydoli'n harfer yn lleol. Diolch Chwarae Cymru am yr hyn yr ydych wedi ei gyflawni.'*

**Cyfarwyddwr Gweithredol, Playright (Hong Kong)**

## Aelodaeth ar gael o £10 y flwyddyn!

| | |
|---|---|
| **Unigol** | **£10** |
| **Sefydliadau** (un, neu lai, o aelodau llawn amser o staff) | **£25** |
| **Rhyngwladol** (y tu allan i Gymru) | **£25** |
| **Sefydliadau** (mwy nag un aelod llawn amser o staff) | **£50** |
| **Masnachol / preifat** | **£75** |
| **Awdurdod lleol** | **£100** |

*Prin iawn yw'r sefydliadau y gallwch fod yn aelod ohonynt gyda'r ddealltwriaeth bod hawl plant i chwarae'n elfen greiddiol ohono. Daw hyn i'r amlwg ym mhob un o gyhoeddiadau a digwyddiadau Chwarae Cymru … Mae bod yn aelod wedi fy helpu yn fy ngwaith proffesiynol fy hun, gan ddysgu o'r ystod eang o wybodaeth a gyhoeddir gan Chwarae Cymru trwy ei gylchlythyrau, ei daflenni gwybodaeth a'i ddigwyddiadau.'*

**Ymgynghorydd Chwarae**

*'Mae Chwarae Cymru yn gorff anllywodraethol (NGO) llawn ffocws, sy'n canolbwyntio ar bolisi.'*

**Grŵp Monitro CCUHP Cymru**
**Adroddiad i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**



# Partneriaid

Yn ogystal â chefnogi trosglwyddo rhaglenni Llywodraeth Cymru, yn ystod 2016-2017 rydym wedi gweithio mewn partneriaeth / cydweithrediad â'r mudiadau canlynol ar brosiectau penodol:

- Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales
- Cartrefi Cymoedd i'r Arfordir
- Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy (CVSC)
- Children's Play Policy Forum
- Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
- Cymdeithas Tai Cymoedd i'r Arfordir
- Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru
- Cymwysterau Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Sir y Fflint
- Diwrnod Chwarae
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Grounds for Learning, Yr Alban
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Inspiring Scotland
- International Play Association (IPA)
- International Play Association EWNI (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon)
- Learning through Landscapes
- Play England
- Playful Futures
- Play Safety Forum
- Play Scotland
- PlayBoard Northern Ireland
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Manceinion
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Prifysgol Swydd Gaerloyw
- Prosiect Achubwyr Lle Gwag
- Scottish Qualifications Authority (SQA)
- Sioned Williams Landscape Design
- SkillsActive
- Tîm Datblygu Chwarae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam





# Cynlluniau ar gyfer y dyfodol: 2017 - 2018

**Bydd Chwarae Cymru'n parhau i weithio i hybu chwarae plant, i weithredu fel eiriolwr dros blant a'u hanghenion chwarae.**

**Tan fis Mawrth 2018, bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu Chwarae Cymru trwy Grant Polisi Strategol Chwarae Cymru i ddarparu ystod o gefnogaeth strategol i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.**

### Rydym yn rhagweld y bydd yr ariannu yma'n ein galluogi i ymgymryd â'r canlynol:

- Datblygu, lansio a chynnal gwefan newydd sydd wedi ei hanelu at y cyhoedd
- Parhau i drosglwyddo gwasanaeth cyfathrebiadau sydd wedi ei anelu at ein etholaeth eang trwy ddarparu cyhoeddiadau â ffocws, e-byst uniongyrchol, gwefan gyda'r wybodaeth ddiweddaraf ac ymgysylltu trwy gyfryngau cymdeithasol
- Cyfrannu tuag at ac hysbysu eiriolaeth leol, cenedlaethol a rhyngwladol trwy waith prosiect ac aelodaeth pwyllgorau a grwpiau
- Cefnogi awdurdodau a mudiadau trydydd sector i gymryd rhan ac ymateb i bolisi cenedlaethol trwy ddigwyddiadau, hwyluso rhwydweithiau a chyngor
- Gweithredu a monitro ein cynllun datblygu'r gweithlu, *Gweithlu chwarae-gyfeillgar i Gymru.*

I sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cael eu datblygu a'u trosglwyddo mor effeithlon a phosibl byddwn yn:

- Gweithredu cynllun hunan-asesu ansawdd ar draws y mudiad ac yn gweithio tuag at achredu
- Datblygu cynllun busnes Chwarae Cymru
- Adolygu, mireinio a gweithredu ein cynllun cynaliadwyedd.

**Ceir manylion y targedau uchod yn strategaethau diwygiedig pum mlynedd a 10 mlynedd Chwarae Cymru. Bydd gweithgareddau codi arian eraill yn ein galluogi i barhau i eiriol dros hawl plant i chwarae.**

# Cyflawniadau: 1998 - 2017

**Ers 1998 mae Chwarae Cymru wedi eiriol ac ymgyrchu'n llwyddiannus dros chwarae, ac wedi annog a chefnogi Llywodraeth Cymru i sicrhau ymrwymiadau cwbl arloesol ar ran plant.**

## Rhagor o gyllid ar gyfer chwarae plant

- Yn 2000, yn dilyn lobïo gan Chwarae Cymru, dosbarthodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Grant Chwarae o £1 filiwn i greu darpariaeth chwarae mynediad agored wedi ei staffio. Er mai'r bwriad yn wreiddiol oedd i'r ariannu yma fod ar gael am flwyddyn yn unig, parhaodd y grant fel elfen o gyllid grant gwahanol yn y blynyddoedd ers hynny.
- Yn 2006, derbyniodd Chwarae Cymru gytundeb tair blynedd ar gyfer helpu i drosglwyddo rhaglen Chwarae Plant £13 miliwn Cronfa'r Loteri FAWR, i gefnogi cynyddu cynhwysedd a phrosiectau chwarae strategol yng Nghymru.
- Yn ddiweddarach, cefnogodd Chwarae Cymru awdurdodau lleol i wneud y defnydd gorau o ariannu oedd ar gael trwy'r Grant Cynyddu Cyfleoedd i Chwarae yn 2014, 2015 a 2017.

## Cydnabyddiaeth genedlaethol gynyddol i chwarae

- Cynorthwyodd Chwarae Cymru Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu Polisi Chwarae 2002 – y cyntaf yn y byd. Yn ogystal, cynorthwyodd Chwarae Cymru gyda'r gwaith o ddatblygu Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006).
- Yn 2012, deddfodd Llywodraeth Cymru ar gyfer chwarae plant. Mae cyfleoedd chwarae wedi eu cynnwys ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae hwn yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i 'asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardaloedd, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol'. Trwy ymateb i ymgynghoriadau, cynorthwyodd ein haelodau i sicrhau bod pwysigrwydd chwarae â man amlwg yn y ddeddfwriaeth Gymreig arloesol yma. Elfen arloesol arall – mae'n bosibl mai dyma'r datblygiad pwysicaf i ddigwydd ar gyfer chwarae plant yng Nghymru.
- Yn 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*, cyfarwyddyd statudol ar asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol. Mae Chwarae Cymru wedi parhau i ddarparu cefnogaeth a chyngor i bob rhanddeiliad o ran gweithredu'r cyfarwyddyd yma.
- Yn 2017 gweithiodd Chwarae Cymru'n agos gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru ar raglen Pob Plentyn Cymru sy'n cydnabod pwysigrwydd allweddol chwarae i iechyd corfforol ac emosiynol plant.

## Gweithlu dynamig

- Datblygodd Chwarae Cymru *Yr Hawl Cyntaf… fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae* ac *Yr Hawl Cyntaf – Prosesau Dymunol*. Mae'r cyhoeddiadau hyn yn anelu i gefnogi pobl sy'n gweithio gyda phlant i ddadansoddi amgylcheddau chwarae ac mae'n cynnig fframwaith ar gyfer asesu ansawdd yr hyn y darperir ar ei gyfer, a'i brofi gan blant.
- Arweiniodd Chwarae Cymru adolygiad y DU o'r Gwerthoedd a Rhagdybiaethau Gwaith Chwarae. Yn dilyn ymgynghoriad, mabwysiadodd y sector yr Egwyddorion Gwaith Chwarae ac fe'u cymeradwywyd gan SkillsActive, y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Gwaith Chwarae, yn 2005. Bellach, mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae'n ffurfio sail i'r safonau galwedigaethol ar gyfer gwaith chwarae yn y DU.
- Er mwyn datblygu arfer gwaith chwarae cyfoes, gweithiodd Chwarae Cymru gyda'r Scottish Qualifications Authority (SQA) i gynnig cymwysterau Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith ($P^3$) ar Lefel 2 a 3. Er mwyn cefnogi'r hyfforddiant arloesol yma, fe wnaethom gynhyrchu deunyddiau dysgu ysbrydoledig.
- Rhwng Chwarae Cymru, Llywodraeth Cymru ac ariannu Ewropeaidd, rydym wedi buddsoddi dros £1.5 miliwn yn y gwaith o ddatblygu, peilota a throsglwyddo Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith ($P^3$).



- Mae Chwarae Cymru wedi parhau i gydweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod hyfforddiant a chymwysterau gwaith chwarae'n ateb anghenion y gweithlu. Mae'r gwaith yma wedi cynnwys datblygu dau gymhwyster sydd wedi eu hanelu at y bobl hynny sy'n gweithio mewn cynlluniau chwarae dros y gwyliau – Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae (L2APP) a Dyfarniad Lefel 3 mewn Rheoli Cynlluniau Chwarae'n Ystod Gwyliau'r Ysgol (MAHPS) (Agored Cymru).

**Golyga hyn i gyd fod y bobl sy'n gweithio gyda'n plant wedi derbyn yr hyfforddiant gorau posibl.**

## Gwell ymwybyddiaeth o chwarae

- Trwy'r wefan a thrwy gyhoeddi e-fwletinau rheolaidd, cylchgronau, taflenni gwybodaeth, llyfrau a phosteri, mae Chwarae Cymru'n hyrwyddo chwarae plant yn eang iawn. Caiff ein gwefan ei hystyried yn rhyngwladol fel un o'r rhai mwyaf effeithlon wrth gyflwyno gwybodaeth amserol am chwarae plant.
- Mae Chwarae Cymru'n darparu hyfforddiant, seminarau a chynadleddau ar gyfer pawb sy'n darparu a chefnogi chwarae plant – gan gynnwys Cynhadledd Fyd-eang 2011 yr International Play Association (IPA).
- Derbyniodd Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones AC, Wobr Hawl i Chwarae'r IPA ar ran pob un yng Nghymru sy'n ymdrechu i wneud Cymru'n wlad chwarae-gyfeillgar. Cymru yw'r wlad gyntaf i dderbyn y wobr arobryn yma. Arweiniodd hyn at weld Chwarae Cymru'n sefydlu ymgyrch Cymru – Gwlad Chwarae-gyfeillgar.
- Cefnogodd Chwarae Cymru waith yr IPA gyda Phwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i ddrafftio a mabwysiadu Sylw Cyffredinol sy'n egluro i lywodraethau ar draws y byd ystyr a phwysigrwydd Erthygl 31 o'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn. Gweithiodd Chwarae Cymru gyda phlant Cymru i ddatblygu adnoddau i hyrwyddo'r hawliau a amlinellir yn Erthygl 31 o GCUHP ar ran yr IPA i gyd-fynd â lansiad y Sylw Cyffredinol.
- Gweithiodd Chwarae Cymru gyda Phrifysgol Swydd Gaerloyw i gynhyrchu dau adroddiad sy'n cyflwyno canfyddiadau dau brosiect ymchwil graddfa fechan, y cyntaf yn archwilio sut y bu i awdurdodau lleol ymateb i gyflwyno'r ddyletswydd i asesu cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant, a'r ail yn brosiect dilynol yn edrych yn ôl dros y flwyddyn flaenorol ac ymlaen at gychwyn ail ran y Ddyletswydd, i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant.

**Mae hyn i gyd wedi cyfrannu at weld mwy o blant yn cael amser, rhyddid a chaniatâd i chwarae. Mae gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau bod Cymru'n wlad ble y caiff chwarae ei barchu am ei bwysigrwydd allweddol i blentyndod – ychwanegwch eich llais er mwyn ein helpu i wneud mwy.**

# Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru - llywodraethu

Mae gennym Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n goruchwylio rhedeg Chwarae Cymru er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein amcanion mewn modd effeithiol ac effeithlon yn unol â'r gyfraith. Ceir hefyd nifer o Sylwedyddion i'r Bwrdd sy'n cefnogi'r Ymddiriedolwyr ond sydd yn ddibleidlais. Caiff ein Ymddiriedolwyr eu hethol gan ein haelodau, neu eu cyfethol i gynrychioli maes arbenigedd penodol.

(fel o fis Mawrth 2017)

## Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

**Dr Anne Crowley**

**Brenda Davis**

**Yr Athro David Egan**
Prifysgol Metropolitan Caerdydd

**Malcolm King**

**Yr Athro Ronan Lyons**
Prifysgol Cymru, Abertawe

**John Rose**

**Dr Mike Shooter CBE (Cadeirydd)**
Seiciatrydd Ymgynghorol (wedi ymddeol)

**Ben Tawil**
Ludicology

**Keith Towler**

**Yr Athro Elspeth Webb**

## Mudiadau sy'n Sylwedyddion

**Steve Cushen**
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**Richard Tobutt**
SkillsActive Cymru

**Catriona Williams OBE**
Plant yng Nghymru

# Tîm Chwarae Cymru

(ym mis Mawrth 2017)

**Mike Greenaway**
Cyfarwyddwr

**Martin King-Sheard**
Swyddog Datblygu'r Gweithlu

**Marianne Mannello**
Cyfarwyddwraig Cynorthwyol
(Polisi, Cymorth ac Eiriolaeth)

**Kathy Muse**
Rheolwraig Swyddfa

**Ruth O'Donoghue**
Swyddog Cyllid

**Angharad Wyn Jones**
Rheolwraig Cyfathrebiadau



**www.chwaraecymru.org.uk**

Elusen cofrestredig, rhif 1068926
Cwmni cyfyngedig drwy warant, rhif 3507258
Cofrestrwyd yng Nghymru